**GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD**
**(GWAHARDD A CHYFYNGU AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD)**
**(ARDAL ARFON RHIF 27) 2025**

Bwriada Cyngor Gwynedd wneud y Gorchymyn uchod trwy ymarfer ei bwerau o dan y Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984, fel y newidiwyd a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori gyda Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984.
Pan ddaw'r Gorchymyn i rym ei effaith fydd:-

1. Gwahardd a chyfyngu cerbydau rhag aros unrhyw amser ar yr ochr darn ffordd a bennir yn Atodlen 1 isod.
2. Defnyddir y rhan hynny o'r ffordd y cyfeirir ati yn Atodlen 1 isod fel safle parcio cerbydau personau anabl sydd yn arddangos bathodyn person anabl.
3. Diddymu cyfyngiadau aros ar yr ochr darn ffordd a bennir yn Atodlen 2 isod
4. Bydd eithriadau yn caniatáu aros o dan rhai amgylchiadau fel y nodi'r yn y Gorchymyn drafft.

Mae manylion llawn am y cynigion hyn yn y Gorchymyn drafft sydd, ynghyd â chynlluniau yn dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt a datganiad o resymau'r Cyngor dros argymell gwneud y Gorchymyn ar gael. Gallwch gael copïau papur drwy anfon cais drwy e-bost i KarenElizabethFraserDuggan@gwynedd.llyw.cymru neu drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod, neu drwy ffonio 01286 679642 yn ystod oriau gwaith arferol. Mae manylion llawn y gorchymyn hefyd ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Parcio-ffyrdd-a-theithio/Gorchymynion-Rheoleiddio-Traffig.aspx
Os dymunwch wneud sylwadau neu wrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, dylid anfon eich gwrthwynebiad mewn ysgrifen gan nodi eich rhesymau dros wneud hynny i'r cyfeiriad isod neu drwy e-bost i'r cyfeiriad KarenElizabethFraserDuggan@gwynedd.llyw.cymru ac mae'n rhaid iddo ddod i law cyn hanner nos ar y **9fed o Ebrill, 2025.** Sylwer: gellir rhyddhau eich gwrthwynebiad i unrhyw barti â diddordeb ei archwilio.

**ATODLEN 1**

| Teil | Lleoliad/Disgrifiad | Cyfyngiad Newydd |
|---|---|---|
| | **PENYGROES** | |
| | **Llwybr March Rhif 129 Llanllyfni - Pant Du, Penygroes** | |
| BX88 & BX89 (Teils Newydd) | O bwynt gogleddol ei gyffordd gyda Ffordd y B4418, tu blaen i'r eiddo a adwaenir fel Turnpike, Ffordd y Sir, Penygroes gan deithio mewn cyfeiriad gogledd-ddwyreiniol am bellter o oddeutu 6 metr. | **Dim Aros ar Unrhyw Adeg** |
| | Ar ochr ogleddol y gyffordd gyda Ffordd y B4418, gan deithio mewn cyfeiriad de ddwyreiniol am bellter o oddeutu 30 metr. | **Dim Aros ar Unrhyw Adeg** |
| | O bwynt ger ei gyffordd gyda Ffordd y B4418, gan deithio mewn cyfeiriad gogledd orllewinol, de ddwyreiniol ac yna gogledd ddwyreiniol am bellter o oddeutu 92 metr. | **Dim Aros ar Unrhyw Adeg** |
| | **CAERNARFON** | |
| | **Ffordd Ddi-Ddosbarth - Llys y Foel, Caernarfon** | |
| BZ52 (25/08/2016) | Ar ochr ogleddol y ffordd tu cefn i'r eiddo a adwaenir fel rhif 3. | **Deiliad Trwydded Breswyl Anabl yn Unig** |
| | **Ffordd Ddi-Ddosbarth - Heol Edward, Caernarfon** | |
| BY49 (2007) | Ar ochr orllewinol y ffordd tu blaen i'r eiddo a adwaenir fel rhif 22. | **Deiliad Trwydded Breswyl Anabl yn Unig** |

| | | |
|---|---|---|
| | **<u>Cyffordd y Ffordd Ddi-Ddosbarth Lôn Maesincla a Maes Cadnant</u>** | |
| BZ48 a BZ49 (2007) | Ar ochr ddeheuol y ffordd ger yr eiddo a adwaenir fel rhif 21, gan deithio mewn cyfeiriad dwyreiniol ac yna deheuol am bellter o oddeutu 14 metr. | **Dim Aros ar Unrhyw Adeg** |
| | Ar ochr ddeheuol y ffordd, ger Neuadd Sgowtiaid, gan deithio mewn cyfeiriad gorllewinol ac yna deheuol am bellter o oddeutu 12 metr. | **Dim Aros ar Unrhyw Adeg** |
| | **<u>TALYSARN</u>**<br>**<u>Ffordd Ddi-Ddosbarth – Cloddfa Glai, Talysarn</u>** | |
| CA88 (2007) | Ar ochr ogleddol y ffordd tu blaen i'r eiddo a adwaenir fel rhif 6. | **Deiliad Trwydded Breswyl Anabl yn Unig** |
| | **<u>BETHESDA BACH</u>**<br><br>**<u>Croesffordd Ffordd yr A499</u>** | |
| BV72 & BV73 (Teils Newydd) | O bwynt ger y safle bws tu blaen i 4 Gernant, gan deithio mewn cyfeiriad gogledd ddwyreiniol am bellter o oddeutu 13 metr. | **Dim Aros ar Unrhyw Adeg** |
| | O bwynt i'r gorllewin o'r eiddo a adwaenir fel Tŷ Mawr, gan deithio mewn cyfeiriad de ddwyreiniol am bellter o oddeutu 20 metr. | **Dim Aros ar Unrhyw Adeg** |

**ATODLEN 2**

**<u>Diddymu</u>**

| Teil | Lleoliad/Disgrifiad | Cyfyngiad Newydd |
|---|---|---|
| Dim | Dim | Dim |

Dyddiedig y 12fed o Fawrth, 2025.



Iwan G D Evans LLB (Anrh) PG.Cert. Dip.L.G
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol

Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1SH
Am fwy o fanylion ynglŷn â'r uchod ffoniwch y Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau 01286 679650
(2505716 KFD)

**THE CYNGOR GWYNEDD**
**(PROHIBITION AND RESTRICTION OF WAITING AND STREET PARKING PLACES)**
**(ARFON AREA NO. 27) ORDER 2025**

The Cyngor Gwynedd propose to make the above Order in exercise of the powers conferred by the Road Traffic Regulation Act 1984, as amended and of all other powers them enabling and after consultation with the Chief Officer of Police in accordance with Part III of Schedule 9 to the Road Traffic Regulation Act 1984.
The effect of the Order will be to:-

1. Prohibit and restrict vehicles from waiting on the sides of lengths of the roads referred to in Schedule 1 hereto.
2. The part of road specified in Schedule 1 hereto shall be used as a parking place for a disabled person's vehicle displaying a disabled person's badge
3. Revoke the waiting restrictions on the sides of lengths of the roads referred to in Schedule 2 hereto.
4. Exceptions will permit waiting in certain circumstances as set out in the draft Order.

Full details are contained in the draft Order which, together with the maps showing the lengths of roads concerned and a statement of the Council's reasons for making the Order are available. You can obtain a paper copy by sending an email request to KarenElizabethFraserDuggan@gwynedd.llyw.cymru or by making a written request to the address below or by contacting 01286 679642 during office hours. Full details of the order are also available on Cyngor Gwynedd's website https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Parking-roads-and-travel/Traffic-Regulation-Orders.aspx If you wish to object to the proposed Order, you should send your objection in writing specifying the grounds thereof to the undersigned at the address specified below or by email to KarenElizabethFraserDuggan@gwynedd.llyw.cymru to arrive before midnight on the **9th April, 2025.** Please note: your objection may be made available for inspection by other interested parties.

**SCHEDULE 1**

| Tile | Location/Description | New Restriction |
|---|---|---|
| | **PENYGROES** | |
| | **Bridleway No. 129 Llanllyfni - Pant Du, Penygroes** | |
| BX88 & BX89 (New Tile) | From the northerly point of its junction with the B4418 Road outside the property known as Turnpike, County Road, Penygroes, travelling in a north-easterly direction for an approximate distance of 6 metres. | **No Waiting at Any Time** |
| | From its northerly point of the junction with the B4418 Road, travelling in a south-easterly direction for an approximate distance of 30 metres. | **No Waiting at Any Time** |
| | From a point with its junction with the B4418 Road, travelling in a north-westerly, south easterly and then in a north easterly direction for an approximate distance of 92 metres. | **No Waiting at Any Time** |
| | **CAERNARFON** | |
| | **Unclassified Road - Llys y Foel, Caernarfon** | |
| BZ52 (25/08/2016) | On the northern side of the road at the rear of the property known as number 3. | **Disabled Resident Holder Only** |
| | **Unclassified Road - Edward Street, Caernarfon** | |
| BY49 (2007) | On the westerly side of the road outside of the property known as number 22. | **Disabled Resident Holder Only** |

| | | |
|---|---|---|
| | **<u>Unclassified Junction of Maesincla Lane and Maes Cadnant</u>** | |
| BZ48 and BZ49 (2007) | On the southerly side of the road near to the property known as number 21, travelling in an easterly and then in a southerly direction for approximately 14 metres. | **No Waiting at Any Time** |
| | On the southerly side of the road near to the property known as Scouts Hall, travelling in a westerly and then in a southerly direction for approximately 12 metres. | **No Waiting at Any Time** |
| | **<u>TALYSARN</u>** | |
| | **<u>Unclassified Road – Cloddfa Glai, Talysarn</u>** | |
| CA88 (2007) | On the northern side of the road outside the property known as number 6. | **Disabled Resident Holder Only** |
| | **<u>BETHESDA BACH</u>** | |
| | **<u>The A499 Road Crossroads</u>** | |
| BV72 and BV73 (New Tiles) | From a point near to the bus stop, outside 4 Gernant, travelling in a north easterly direction for an approximate distance of 13 metres. | **No Waiting at Any Time** |
| | From a point to the west of the property known as Tŷ Mawr, travelling in a south-easterly direction for an approximate distance of 20 metres. | **No Waiting at Any Time** |

**SCHEDULE 2**

**<u>Revocation</u>**

| **Tile** | **Location/Description** | **New Restriction** |
|---|---|---|
| None | None | None |

Dated the 12th March, 2025.

Iwan G D Evans LLB(Hons) PGCert. Dip.L.G
Head of Legal Services,

Cyngor Gwynedd, Shirehall Street, **CAERNARFON,** Gwynedd, LL55 1SH
For further information regarding the above please telephone the Traffic and Projects Service on (01286) 679650
(2505716   KFD)